

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Pryniant Fferm Gilestone gan Lywodraeth Cymru

Gorffennaf 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCCGG

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
X: **@SeneddArchwilio**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Pryniant Fferm Gilestone gan Lywodraeth Cymru

Gorffennaf 2025



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCCGG

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



Tom Giffard AS
Ceidwadwyr Cymreig



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru



Adam Price AS
Plaid Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Natasha Asghar AS
Ceidwadwyr Cymreig



Mabon ap Gwynfor AS
Plaid Cymru



Rhys ab Owen AS
Aelod Annibynnol

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion a chasgliad.....	6
1. Cefndir.....	8
Pryniant.....	8
Tystiolaeth a rhesymeg Llywodraeth Cymru dros y pryniant.....	9
Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.....	9
Sesiwn dystiolaeth Llywodraeth Cymru.....	12
Gwybodaeth ddilynol.....	16
2. Llythyr yr Archwilydd Cyffredinol.....	18
Cadw cofnodion.....	19
Cyflymder y broses brynu ac ansawdd y Cyngor Gweinidogol.....	19
Didwylledd a thryloywder – adroddiadau ar benderfyniadau ac ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.....	20
Costau yn deillio o brynu Fferm Gilestone a'r gwaith rheoli parhaus.....	21
Cyfathrebu mewnol o fewn Llywodraeth Cymru ac amcanion polisi ehangach.....	21
3. Diweddariadau ar y cynnydd.....	22
Sesiwn dystiolaeth gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, 5 Gorffennaf 2023.....	25
4. Ymateb.....	30
Ymgysylltu â'r gymuned.....	30
Gŵyl y Dyn Gwyrdd.....	32
Pryderon.....	35
Grŵp Cadwraeth Dyffryn Wysg.....	35
Prosiect Stop Gilestone Farm.....	35
Hawliau chwaraeon a physgota.....	36
Ein barn ni.....	36

5. Datblygiadau dilynol	39
Dyfodiad gweilch y pysgod	39
Ymateb.....	41
Ein barn ni	43
Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	45

Rhagair y Cadeirydd

Datgelodd gwaith craffu'r Pwyllgor ar brynu Fferm Gilestone gyfres o fethiannau yn null gweithredu Llywodraeth Cymru yn yr achos penodol hwn a chododd bryderon ynghylch ei dull o brynu eiddo ac asedau yn fwy cyffredinol.

Er bod y Pwyllgor yn parhau i gefnogi gallu Llywodraeth Cymru i wneud pryniannau, i hyrwyddo datblygiad economaidd ac i helpu i weithredu polisi yn effeithiol, dylai fyfyrion ar gasgliadau'r adroddiad hwn i sicrhau bod y broses yn esmwythachh ac yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

Yn benodol, rhaid i Lywodraeth Cymru fyfyrion ar sut y mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn yr achos hwn, roedd y gymuned leol yn teimlo nad oedd yn rhan o'r broses ac nad oedd wedi cael gwybodaeth ddigonol am fwriadau Llywodraeth Cymru, ac roedd swyddogion yn cydnabod bod methiannau. Er y gwnaed gwelliannau yn ystod y broses, gallai asesiad gonest o'r methiannau arwain at ganlyniadau gwell yn y dyfodol. Yn ei dro, bydd hyn yn caniatáu i'r cyhoedd deimlo eu bod yn rhan o unrhyw gynigion yn y dyfodol ac yn y pen draw, bydd o fudd i Lywodraeth Cymru.

Mae'n ddiymwad bod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ar frys y gellid bod wedi'i osgoi yn yr achos hwn, oherwydd y pwysau i ddefnyddio'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'n drueni bod methiannau yn y broses a dylai Llywodraeth Cymru fyfyrion ar ei dull cyn prynu, er mwyn penderfynu a yw'r prosesau sydd ar waith yn ddigon cadarn i osgoi problemau rhag codi yn y dyfodol.

Roedd dyfodiad gweilch y pysgod i'r safle yn annisgwyl a chydabyddir bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r datblygiad hwn er mwyn gwarchod eu cynefin, er bod tystiolaeth bod rhywogaethau gwarchodedig eraill yn bresennol ar y safle pan gafodd ei brynu. Fodd bynnag, mae dyfodol y safle bellach yn ymddangos yn ansicr iawn, gyda'r gwerthusiad diweddaraf yn dangos bod gwerth yr ased wedi gostwng £0.5 miliwn mewn gwerth o'i gymharu â'r pris prynu. Mae hyn yn destun gofid mawr.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd materion tebyg yn codi mewn trafodion yn y dyfodol ac felly bydd yn ystyried cynnal ymchwiliad yn y dyfodol i archwilio dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â threfniadau caffael tebyg er mwyn gweld a oes materion mwy cyffredinol y gellir mynd i'r afael â nhw.

Mark Isherwood AS,

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Argymhellion a chasgliad

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r trefniadau ynghylch sut y mae Cyngor Gweinidogol yn cael ei rannu ag Ysgrifenyddion y Cabinet a Chyfarwyddwyr Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod pob uwch swyddog sy'n gwneud penderfyniadau yn cael y wybodaeth sy'n berthnasol i'w bortffolio. Dylai hefyd adolygu unrhyw ganllawiau ynghylch cynnwys y cyngor, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol yn cael ei darparu i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.....Tudalen 37

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei harferion o ran ymgynghori ac ymgysylltu yn fwy cyffredinol ac adrodd ar ei chanfyddiadau i'r Pwyllgor. Dylai'r adolygiad ystyried a oes digon yn cael ei wneud i gyfathrebu â'r cyhoedd, a yw'r dulliau cyfathrebu mwyaf effeithiol yn cael eu defnyddio ac a oes digon yn cael ei wneud i adlewyrchu'r ymgysylltiad cymunedol hwn wrth gwblhau cynlluniau neu strategaethau..... Tudalen 38

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n gwerthuso llwyddiant ei gwaith ymgynghori ac ymgysylltu yn fwy cyffredinol a phaddata y mae'n eu casglu am lefelau ymgysylltu a chyfraddau cyswllt yn y cymunedau lle y cynhelir yr ymarferion hyn, ac yn fwy cyffredinol.
..... Tudalen 38

Argymhelliad 4. Dylai Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad llawn o'r broses brynu a myfyrio ar y golled sylweddol yng ngwerth y tir ac a ellid bod wedi lliniaru hyn pe bai Llywodraeth Cymru wedi cynnal proses diwydrwydd dyladwy fwy trylwyr cyn y pryniant. Dylai fyfyrto ar a allai proses diwydrwydd dyladwy fwy cadarn fod wedi canfod y risg y byddai'r mater hwn yn codi, pe bai gwiriadau cyn prynu mwy trylwyr wedi'u cynnal. Dylai'r adolygiad nodi'n glir yr opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i lliniaru'r colledion i'r pwrs cyhoeddus.....Tudalen 43

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa ganllawiau neu gerrig milltir cyn buddsoddi, os o gwbl, a ddilynnir cyn bwrw ymlaen â phrynu eiddo neu dir, gan gynnwys pa chwiliadau neu arolygon y mae'n rhaid eu cynnal i benderfynu ar addasrwydd y tir. Dylai'r esboniad hwn hefyd nodi unrhyw eithriadau lle nad oes angen dilyn y rheolau hyn, os yw'n berthnasol.
.....Tudalen 44

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pa ganllawiau neu reolau a ddilynnir mewn perthynas â chael gwerthusiadau ar bryniannau

eiddo neu dir arfaethedig a'r hyn sy'n ofynnol gan Weinidogion a swyddogion.....Tudalen 44

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu rôl yr Adran Tir mewn perthynas â phrynu eiddo a thir ac egluro sut y maent yn gweithio gyda'r adrannau perthnasol i sicrhau bod y tir yn addas at y dibenion a fwriadwyd, a'r broses diwydrwydd dyladwy y disgwylir iddynt ei chyflawni cyn prynu.
.....Tudalen 44

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw brisiadau diweddaraf ar gyfer y tir. Dylai hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan wneir penderfyniadau ynghylch defnydd y safle yn y dyfodol, gan gynnwys os bydd y broses i werthu'r safle yn cychwyn.....Tudalen 44

Casgliad 1. Bydd y Pwyllgor yn comisiynu ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o fuddsoddi mewn eiddo, er mwyn deall yn well y prosesau a ddefnyddir ac i werthuso a ydynt yn ddigon trylwyr.....Tudalen 44

1. Cefndir

Pryniant

1. Ar 31 Mawrth 2022, talodd Llywodraeth Cymru £4.25 miliawn am rydd-ddaliad Fferm Gilestone, ger Talybont-ar-Wysg ym Mhowys, i “gefnogi twf y sector creadigol yng nghanolbarth Cymru”¹.
2. Mae Gŵyl y Dyn Gwyrdd wedi cael ei chynnal yn flynyddol ers 2006 ar Ystâd Glan-wysg yng Nghrucywel, Powys. Mae'r safle tua chwe milltir o Fferm Gilestone ac roedd pob tocyn wedi'i werthu ar gyfer 2024, gyda thua 25,000 o fynychwyr².
3. Mae sawl cwmni perthnasol yn gysylltiedig â'r brand Gŵyl y Dyn Gwyrdd, gan gynnwys.
 - Plantpot Limited (rhif cofrestru'r cwmni 08079792, wedi'i ymgorffori ym mis Mai 2012);
 - Green Man Trust Limited (rhif cofrestru'r cwmni 08365361, wedi'i ymgorffori ym mis Ionawr 2013);
 - Cwningar Limited (rhif cofrestru'r cwmni 13932463, wedi'i ymgorffori ym mis Chwefror 2022).
4. Mae Fiona Stewart yn gyfarwyddwr ar y cwmnïau hyn ac yn rhedeg Gŵyl y Dyn Gwyrdd. Ar yr adeg y cafodd Fferm Gilestone ei phrynu, roedd hi'n Gadeirydd Grŵp Strategaeth Economaidd Canolbarth Cymru, a gyfrannodd at waith Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.
5. Pan ofynnwyd iddo am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y safle mewn Cyfarfod Llawn ar 18 Mai 2022, dywedodd y Gweinidog dros yr Economi ar y pryd wrth y Senedd:

“Rydym wedi bod yn trafod gyda pherchnogion Gŵyl y Dyn Gwyrdd am y posibilrwydd y byddant hwy yn lesio'r safle, er mwyn rhoi mwy o sicrwydd iddynt fuddsoddi yn yr ŵyl, sydd, fel y

¹ Llywodraeth Cymru, [Canllawiau – Fferm Gilestone](#)

² BBC News, [Thousands to attend sold-out Green Man festival](#), 14 Awst 2024

gŵyl yr Aelod, yn ennyn cefnogaeth ar draws ystod o wahanol sectorau”³.

6. Esboniodd y Gweinidog eu bod yn aros am gynllun busnes gan berchnogion yr ŵyl, cyn bwrw ymlaen ag unrhyw gytundeb yn y dyfodol. Aeth ymlaen i esbonio y byddent yn ymchwilio i a oedd angen prydles tymor byr i reoli'r eiddo am gyfnod o amser⁴.

7. Ar 26 Mai 2022, atebodd y Gweinidog gyfres o gwestiynau ysgrifenedig am y pryniant, gan grynhoi'r cymhelliant y tu ôl iddo, y pris a dalwyd a'r trefniadau gwerthuso, a gwnaeth sylwadau am y trefniant prydlesu tymor byr cychwynnol gyda'r perchennog blaenorol⁵.

Tystiolaeth a rhesymeg Llywodraeth Cymru dros y pryniant

Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

8. Cyn sesiwn tystiolaeth lafar a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru bapur tystiolaeth yn amlinellu ei rhesymeg dros y pryniant⁶.

9. Cadarnhaodd hyn fod Gŵyl y Dyn Gwyrdd wedi cyflwyno cynllun busnes amlinellol i Lywodraeth Cymru ar 1 Hydref 2021, yn nodi uchelgeisiau'r cwmni ar gyfer dyfodol cynaliadwy, gyda manylion ychwanegol am yr hyn y byddai ei angen o safle yn y dyfodol. Roedd ei uchelgeisiau yn cynnwys:

- Sicrhau ei ddyfodol yng Nghymru;
- Ehangu ei weithgareddau ymgysylltu cymunedol a chreu swyddi;
- Cefnogi ei amcanion busnes moesegol; a
- Darparu profiadau twristiaeth newydd a thyfu ei fusnes lles.

10. Hysbysodd Gŵyl y Dyn Gwyrdd Lywodraeth Cymru y gallai daliad amaethyddol addas fod ar gael ym mis Chwefror 2022, ond nad oedd ganddo'r adnoddau ariannol i'w gaffael. Ysgogodd hyn Lywodraeth Cymru i brynu'r Fferm. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig, rhoddwyd y cyd-destun strategol i'r gwerthiant:

³ Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 18 Mai 2022, p156

⁴ Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 18 Mai 2022, p156

⁵ Cwestiwn Ysgrifenedig WQ85141, Senedd, 16 Mai 2022

⁶ Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth – Fferm Gilestone (Saesneg yn unig)

- Datblygiad economaidd – nodir poblogrwydd Gŵyl y Dyn Gwyrdd a'i phwysigrwydd i'r economi leol, drwy gynhyrchu £10.37 miliwn y flwyddyn (sy'n cyfateb i 185 o swyddi). Mae'n nodi pwysigrwydd cefnogi'r sector creadigol yng Nghymru drwy ddarparu cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau ac i weithgareddau sy'n cyfrannu at ddatblygu amgylchedd meithringar a chefnogol ar gyfer y sector creadigol.
- Diwylliant a Digwyddiadau – mae'n disgrifio defnydd terfynol y safle fel cyrchfan digwyddiadau a thwristiaeth sydd, ym marn y Llywodraeth, yn gydnaws â nod ei Rhaglen Lywodraethu i gynorthwyo'r diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a chelfyddydau i adfer ar ôl y pandemig. Mae'n nodi bod yn rhaid i Wyl y Dyn Gwyrdd gyd-fynd ag uchelgeisiau ei Strategaeth Digwyddiadau Mawr, sy'n cynnwys yr angen i ddigwyddiadau fod yn ddilys a chael naw Gymreig benodol waeth beth fo'u maint, graddfa neu leoliad.
- Amaethyddiaeth – noda fod y cynllun busnes yn ymrwymo i sicrhau bod yr amgylchedd wrth wraidd y prosiect, gyda'r cynllun yn nodi y gallai'r datblygiad gefnogi amcanion Llywodraeth Cymru'n ymwneud â Rheoli Tir yn Gynaliadwy.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – maent yn dadlau bod y cynigion yn cyd-fynd yn agos ag egwyddorion y Ddeddf, yn enwedig y nod o Gymru "â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

11. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig yn cadarnhau bod Fiona Stewart, y mae ei busnes corfforaethol wedi'i gofrestru fel Plant Pot Limited, wedi sefydlu Cwningar Ltd i hwyluso'r datblygiad.

12. Mae'r eiddo'n cynnwys ffermdy ac adeiladau fferm o fewn 241 erw o dir. Pan gafodd y safle ei brynu, roedd y rhan fwyaf ohono'n cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol. Aiff y dystiolaeth ymlaen i ddweud:

"The farmhouse itself along with the four lodges and three tents are used for self-catering holiday lets. The remaining farm buildings on the site are used by small local traders including carpenters, electricians, a landscape gardener, a tree surgeon and a market gardener."

The farm also hosts a small number of weddings over the year and has recently hosted a running event and a small camping event for a local school".

13. Noda fod Knight Frank wedi priso'r safle gan roi gwerth o £4.35 miliwn ar y tir, sef £100,000 yn fwy na'r pris prynu (diwygiwyd hyn wedi hynny i £4.325 miliwn mewn tystiolaeth lafar⁷). Cadarnhaodd fod y perchennog blaenorol wedi prydlesu'r eiddo yn ôl gan Lywodraeth Cymru am rent isel iawn er mwyn cynnal a chadw a rheoli'r eiddo, cynaeafu'r cnydau presennol ac anrhydeddu'r archebion presennol. Aiff ymlaen i ddweud:

"The Lessee is also required to appropriately yield up the property at the end of the term and to ensure that all necessary Tenancies at Will are in place. The peppercorn rent has been independently certified as reflecting value for money in these circumstances. Officials are working on management arrangements for the farm and the wider property from end of October without prejudice to the outcome of the ongoing discussions with Green Man".

14. O ran y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r trefniant caffael, noda'r dystiolaeth (heb ymhelaethu ymhellach):

"... advice was put to Ministers in accordance with the process and guidance followed by WG for the proposed acquisition of any property".

15. Mae'n cadarnhau bod cynllun busnes llawn wedi'i gyflwyno gan Fiona Stewart a Cwningar Ltd ar 29 Mehefin 2022. Eglura:

"The aim of the plan is to provide the rationale and basis upon which the expanded activities and related business activities (food and drink and tourism) and retained agricultural uses will be financed, operated and expanded in due course. The Plan aims to explore the aim of making the event the first carbon neutral event in the UK and with a focus on decarbonisation and encouraging the use of tree planting in association with the

⁷ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Gorffennaf 2022, p9

National Forest. Green Man have provided assurances that the land would continue to be farmed and information on these plans has been included in the full business plan”.

- 16.** Mae’n disgrifio’r cynllun busnes fel un sy’n sensitif yn fasnachol, a dywed:

“[it is] currently undergoing full due diligence and assessment by WG officials in line with normal practice and will include an assessment of the agricultural future of the property. Only after this process, which will involve appropriate consultation with relevant interested parties, has concluded and advice put to Ministers can a decision be made on whether Gilestone Farm, now a WG-owned property, is a suitable asset to support the aims and ambitions set out in the plan”.

- 17.** Mae’n nodi y byddai unrhyw drafodiad prydlesu neu brynu gyda Cwningar Ltd yn cyd-fynd â’r egwyddorion arweiniol a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, ei phrosesau llywodraethu a’i Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol. Noda, os nad yw’r cynllun busnes yn bodloni gofyniad Llywodraeth Cymru, neu os nad yw Cwningar Ltd yn ymrwymo i brydlesu neu brynu’r eiddo, y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu ei farchnata i’w werthu neu ei osod yn y farchnad agored, gan egluro:

“In the event of any sale by WG, it will be able to recover the market value at that time. On the basis of the current valuation WG’s initial investment in the site would be substantially recovered (after accounting for purchase, holding and disposal costs)”.

Sesiwn dystiolaeth Llywodraeth Cymru

- 18.** Yn ystod sesiwn tystiolaeth lafar ar 14 Gorffennaf 2022, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a’r Cyfansoddiad (“y Cyfarwyddwr Cyffredinol”) wrth y Pwyllgor:

“Welsh Government has a range of powers at its disposal to deliver on the programme for government, which includes property purchases, and we’ve taken that option here to work with Green Man, potentially, subject to detailed business plan approval, on a programme that will effectively help keep Green

Man as a brand and as a festival construct in Wales, and allow it to grow and develop. And that's why we have entered into the purchase of Gilestone Farm. We've been engaged in detailed discussions with Green Man since about 2019 on questions surrounding properties for a base for the Green Man brand. That's not the same as the festival itself, but for the company and associated activities"⁸.

19. Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Gŵyl y Dyn Gwyrdd ers y trafodaethau cychwynnol yn 2019 i ddod o hyd i safle⁹, a oedd yn cynnwys gwerthuso eiddo presennol Llywodraeth Cymru i benderfynu a allai safle presennol fod yn addas. Pan nad oedd safle addas ar gael, cyflogwyd asiant i ddod o hyd i safle, fodd bynnag, ni lwyddodd i wneud hynny. Pan ddaeth Fferm Gilestone ar y farchnad, roedd hyn yn golygu bod safle addas wedi'i ganfod am y tro cyntaf. Cafodd Llywodraeth Cymru wybod am argaeledd y Fferm gan Wyl y Dyn Gwyrdd. Pan ofynnwyd iddo pam fod y safle'n ddymunol, eglurodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol:

"... there is something about the location, the character of the property, current uses, proximity to the main festival site and so on, which was also set out in principle in the outline business plan, which meant that, when the possibility of Gilestone Farm came up as a purchase option, that ticked many of the boxes, if not all of them, in the outline business plan. And that's why we moved at pace, working with Green Man, and then with the vendor, to try and secure the property, so that there was the option going forward for Green Man to put forward a detailed business case, which they've now done, for how they might use the site"¹⁰.

20. Pan ofynnwyd iddo a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i unrhyw gyfyngiadau a osodwyd ar y safle, gan gynnwys unrhyw bryderon amgylcheddol neu ecolegol (a ystyrir yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn), neu wrthwynebiadau lleol, eglurodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod sawl elfen o ddiwydrwydd dyladwy yn cael eu cynnwys mewn trafodion fel hyn.

⁸ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Gorffennaf 2022, p12

⁹ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Gorffennaf 2022, p15

¹⁰ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Gorffennaf 2022, p28

Esboniodd fod tair lefel o wiriadau'n cael eu cynnal i benderfynu ar addasrwydd safle, gan nodi:

"... the starting position is: is this a property that meets the spec set out in the outline business case and does it credibly have the possibility of delivering against them as we move forward? So, that's the primary set of checks—tier 1. And our conclusion was that, yes, it did in principle, and that it definitely met the spec as set out in the outline business plan"¹¹.

21. Aeth ymlaen i ddweud:

"The second tier of checks comes in the form of the extensive due diligence process that we're now embarked upon in relation to the full business plan. That will then start to test some of these issues, including in respect of environmental regulation, what's likely to be possible in headline terms around transport, what are the constraints potentially in respect of flood risks... and engaging with the community on key aspects of what is proposed, because, as you say, that's an important part of this. And that will then form a decision judgment on whether we proceed with signing off the business plan and entering into an agreement with Green Man or we don't..."¹².

22. Yn olaf, byddai trydydd lefel o wiriadau a materion i fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys negodi prydles briodol a gwneud unrhyw geisiadau cynllunio angenrheidiol¹³.

23. Wrth ymateb i bryderon ynghylch diffyg ymgysylltiad cymunedol, nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y byddai ymgynghoriad mwy manwl yn dilyn yn ystod yr ail haen o wiriadau¹⁴. Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol a phartïon eraill.

¹¹ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Gorffennaf 2022, p30

¹² Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Gorffennaf 2022, p31

¹³ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Gorffennaf 2022, p32

¹⁴ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Gorffennaf 2022, p36

24. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol nad oedd unrhyw fwriad i'r brif wyl symud i'r safle, ond yn hytrach y datblygiad sy'n gysylltiedig â gweithgareddau busnes ehangach Gŵyl y Dyn Gwyrdd. Eglurodd:

*"This is about the wider business... and a set of ancillary activities that will include sustainable development work. It will include, I think, farming activities, based on the outline discussions we've had with them and some of the emerging detail from the business plan, the detailed business plan, and a range of other things that will allow them to keep the operation in Wales. Because Green Man have been subject to lots of proposed buyouts by multinational firms interested in the brand and in the business as a whole, and we're trying to keep it in Wales"*¹⁵.

25. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y darparwyd cymorth ariannol i Wyl y Dyn Gwyrdd yn flaenorol, gan egluro:

*"... between 2010 and around 2019-20—so in the decade running up to the pandemic—we had provided funding for a range of activities and programmes and sponsorship, amounting to about £1 million in total. And then, during the pandemic, Green Man was awarded something just over the £0.5 million mark as part of the recovery fund associated with pandemic support"*¹⁶.

26. Pan ofynnwyd iddo a oedd bwriad pellach i fuddsoddi yng Ngŵyl y Dyn Gwyrdd neu Cwningar Ltd i hwyluso'r gwaith yr oedd angen ei wneud yn Fferm Gilestone, eglurodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol:

"I don't know at this stage, and I don't think colleagues will have anything different to say on that front. This is all part of the process that we've now entered into in developing our due diligence work around the business case and pushing down through the detail that has been provided in an iterative process with Green Man. That will, apart from anything else, drive out whether there is going to be a need for further funding and, if so, whether that stacks up in terms of meeting our policy delivery

¹⁵ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Gorffennaf 2022, p55

¹⁶ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Gorffennaf 2022, p19

objectives. Any grant funding has to operate through mechanisms that are established and clear...¹⁷.

27. Pan ofynnwyd pa opsiynau fyddai wedi cael eu cyflwyno i Weinidogion yn yr achos hwn, clywsom y byddai'r rhain wedi cynnwys:

"... the Welsh Government acquiring the site; acquiring an alternative property; grant support; loan support; the local authority, potentially, acquiring the site—there would have been a number of options that we looked at that were set out and run through prior to providing a recommendation to the Minister"¹⁸.

Gwybodaeth ddilynol

28. Ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru ar 8 Awst 2022¹⁹, i ofyn am ragor o wybodaeth am y pryniant, y manteision economaidd sy'n gysylltiedig â Gŵyl y Dyn Gwyrdd a manylion ategol eraill a godwyd gan drydydd partïon gyda'r Pwyllgor.

29. Yn ei hymateb²⁰, fe wnaeth Llywodraeth Cymru:

- Gadarnhau bod Gŵyl y Dyn Gwyrdd a'i gwmnïau cysylltiedig wedi derbyn cyfanswm o £921,000 mewn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru rhwng 2010 a 2019.
- Darparu gwybodaeth enghreifftiol am gefnogaeth Llywodraeth y DU i wyliau eraill.
- Cadarnhau bod tystiolaeth a ddyfynnwyd am fuddion economaidd gŵyl bresennol y Dyn Gwyrdd yn dod o adroddiad a gomisiynwyd gan Wyl y Dyn Gwyrdd ac nad oedd yn bwriadu craffu arni ymhellach. Fodd bynnag, ymrwymodd i broses diwydrwydd dyladwy gadarn mewn perthynas ag effaith economaidd bosibl

¹⁷ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Gorffennaf 2022, p134

¹⁸ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Gorffennaf 2022, p167

¹⁹ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru, 8 Awst 2022

²⁰ Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 26 Medi 2022

gweithgareddau arfaethedig ar Fferm Gilestone a chyllid strwythur grŵp Gŵyl y Dyn Gwyrdd a'i gwmnïau cysylltiedig.

- Cadarnhau, er ei bod yn ymwybodol yn gyffredinol o fodolaeth yr hawliau pysgota a saethu a ddelir gan drydydd parti, na wnaethpwyd unrhyw gysylltiad ar wahân â buddiolwr yr hawliau hynny fel rhan greiddiol o'r broses brynu. Byddai trafodaethau â'r buddiolwr yn cael eu cynnal yn ôl yr angen.
- Cadarnhau bod argaeledd posibl Fferm Gilestone wedi dod i'r amlwg yn gynnar yn 2022, ar ôl i Wyl y Dyn Gwyrdd benodi asiant allanol i chwilio am safleoedd addas.
- Egluro materion yn ymwneud â manylion a anfonwyd at un unigolyn a'i asiant am Fferm Gilestone yn gynnar yn 2020.
- Datgan bod proses diwydrwydd dyladwy gadarn arall yn cael ei chynnal mewn perthynas â chynllun busnes llawn Gŵyl y Dyn Gwyrdd, i gynnwys asesiad o unrhyw gyfyngiadau posibl ar weithgareddau arfaethedig. Byddai hyn yn dod cyn penderfyniad ynghylch a ddylid symud ymlaen i'r cam nesaf, ac ar yr adeg honno roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori â chyrff rheoleiddio a'r gymuned leol cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. Pe na bai pethau'n symud ymlaen, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai opsiynau pellach yn cael eu hystyried, gan gynnwys gosod yr eiddo ar y farchnad agored.

30. Fel y nodwyd eisoes, rhwng y dyddiad prynu a 31 Hydref 2022, fe wnaeth Llywodraeth Cymru brydlesu'r Fferm yn ôl i'r gwerthwr ar rent "rhad" tybiannol. Hyd at 31 Hydref 2023, cafodd y Fferm ei brydlesu yn ôl i'r gwerthwr ar gyfer y defnydd presennol (ffermio yn bennaf), ar yr hyn yr honnwyd eu bod yn delerau masnachol.

2. Llythyr yr Archwilydd Cyffredinol

31. Ar 19 Ionawr 2023, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol²¹ at y Pwyllgor yn nodi canfyddiadau ei archwiliad o benderfyniad Llywodraeth Cymru i brynu Fferm Gilestone. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol ffeithiau allweddol cyn y penderfyniad i brynu'r fferm a thrafododd brosesau llywodraethu yn ymwneud â'r penderfyniad. Prif ffocws yr adolygiad oedd:

- a oedd Llywodraeth Cymru'n meddu ar y pwerau cyfreithiol i brynu Fferm Gilestone, ac a arferodd y pwerau hyn yn briodol o fewn ei fframwaith polisi;
- a gafodd y penderfyniad i brynu'r Fferm ei wneud yn briodol; ei wneud o fewn y broses weinyddol a'r fframwaith rheoli cywir, ac a gafodd ei wneud gan y rhai a oedd yn meddu ar yr awdurdod priodol;
- a roddodd Llywodraeth Cymru ystyriaeth ddyladwy i'r holl wybodaeth berthnasol wrth wneud ei phenderfyniad, ac a wnaeth beidio â chynnwys gwybodaeth amherthnasol;
- a gymerodd Llywodraeth Cymru gamau priodol i ddiogelu gwerth am arian o gronfeydd cyhoeddus;
- a wnaeth Llywodraeth Cymru roi cyfrif priodol am ei gweithredoedd a'r rhesymau drostynt, mewn ymateb i graffu dilys gan y Senedd ac yn gyhoeddus.

32. Ni chanolbwyntiodd yr adolygiad ar:

"... rhinweddau defnyddiau o'r safle yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru, ei thenantiaid, nac unrhyw brynwyr dilynol; yn enwedig gan gwmnïau sy'n gysylltiedig â Gŵyl y Dyn Gwyrdd⁴, a gynhelir ar Ystâd Glanwysg gerllaw. Nid ydym ychwaith wedi archwilio ar ba sail y mae Llywodraeth Cymru bellach wedi penderfynu ar gytundeb ar gyfer adles fasnachol gyda'r gwerthwr tan ddiwedd mis Medi 2023".

²¹ Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 19 Ionawr 2023

33. Fodd bynnag, ystyriodd i ba raddau y gwnaeth ystyriaeth Llywodraeth Cymru o ddefnyddiau posibl yn y dyfodol lywio ei chamau gweithredu ei hun mewn perthynas â'r pryniant.

34. Daeth yr adroddiad i'r casgliad a ganlyn:

Cadw cofnodion

- Nid wnaeth Llywodraeth Cymru gadw cofnod o faterion a drafodwyd gyda Gŵyl y Dyn Gwyrdd mewn amryw gyfarfodydd rhithwir wrth iddi ystyried yr amlinelliad o gynllun busnes Gŵyl y Dyn Gwyrdd a'r broses a arweiniodd at brynu'r Fferm.
- Byddai nodiadau o'r trafodaethau hynny wedi cefnogi'r llwybr archwilio ar gyfer penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn well, yn enwedig ar ôl i Fferm Gilestone gael ei nodi fel safle posibl.

Cyflymder y broses brynu ac ansawdd y Cyngor Gweinidogol

- Yn ein barn ni, y ffactor mwyaf arwyddocaol a gyfrannodd at gyflymder penderfyniad Llywodraeth Cymru i brynu'r safle oedd y cyfle i ddefnyddio tanwariant yn ystod y flwyddyn i wneud hynny, ynghyd â'r gofyniad canlyniadol i gwblhau'r broses brynu erbyn 31 Mawrth 2022.
- Roeddem o'r farn bod y brys hwnnw, y gellid bod wedi ei osgoi, ac a oedd i'w briodoli i ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi peryglu gallu Llywodraeth Cymru i fynegi'n glir ac ystyried yn llawn fel rhan o'i phroses gwneud penderfyniadau y rhesymeg sylfaenol dros brynu'r safle, yn gysylltiedig â bwriadau Gŵyl y Dyn Gwyrdd ar ei gyfer.
- Roedd materion yn ymwneud â chynnwys y Cyngor Gweinidogol a oedd yn cefnogi'r penderfyniad i brynu'r safle. Er enghraifft, gallai'r Cyngor fod wedi egluro'n gliriach pam yn union yr ystyriwyd bod cynnwys y cyngor yn newydd/dadleuol a sut y byddai risgiau penodol yn cael eu lliniaru. Roedd hefyd yn darparu gwybodaeth gyfyngedig am gyfyngiadau posibl ar addasrwydd y safle ar gyfer yr hyn a fwriadwyd gan Wyl y Dyn Gwyrdd. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn teimlo y dylid bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r opsiwn o ariannu'r pryniant o gyllideb gyfalaf wahanol gyda chyllid ar gael ar gyfer 2022-23.

- Nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod diffyg eglurder mewn rhai datganiadau ynghylch y dibenion yr oedd Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn ceisio defnyddio'r safle ar eu cyfer ac unrhyw gysylltiad â gŵyl bresennol y Dyn Gwyrdd. At hynny, roedd y Cyngor yn cyfeirio at drefniadau y gellid eu gwneud gyda Plant Pot Limited (y cwmni sy'n trefnu Gŵyl y Dyn Gwyrdd). Mewn gwirionedd, roedd Gŵyl y Dyn Gwyrdd wedi ffurfio cwmni newydd ar gyfer y fenter; Cwningar Ltd (a ymgorfforwyd ar 22 Chwefror 2022), i fwrw ymlaen â'i gynlluniau ar gyfer Fferm Gilestone.
- Ni chafodd Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad gopi o'r Cyngor Gweinidogol ynghylch y pryniant ac (fel y cadarnhawyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i gais Rhyddid Gwybodaeth) nid oedd yn un o'r uwch-swyddogion a oedd yn gwybod am y diddordeb yn Fferm Gilestone, a'r pryniant, ar y pryd. Er nad oedd yn ofynnol o reidrwydd iddo fod wedi cael gwybod o dan Gynllun Dirprwyo Llywodraeth Cymru, lle y mae penderfyniadau'n newydd neu'n ddadleuol, fel y tybiwyd eu bod yn yr achos hwn, nododd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai wedi bod yn ddoeth o leiaf i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gael ei hysbysu.

Didwylledd a thryloywder – adroddiadau ar benderfyniadau ac ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth

- Roedd llythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys Atodiad yn crynhoi ymatebion cyhoeddedig i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ymwneud â Fferm Gilestone. Roedd y llythyr yn mynegi'r farn y bu anghysondebau yn y dulliau a ddefnyddiwyd mewn ymateb i geisiadau tebyg am wybodaeth yn ymwneud â phrynu'r Fferm.
- Roedd y llythyr hefyd yn nodi bwlch o 8 wythnos rhwng penderfyniad y Gweinidog i fwrw ymlaen â'r pryniant a chyhoeddi'r adroddiad ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru. Awgrymodd y swyddogion fod hyn i'w briodoli i ffactorau a oedd yn cynnwys yr awydd i reoli cyhoeddusrwydd, sensitifrwydd masnachol ac, yn fwy cyffredinol, blaenoriaethau llwyth gwaith a oedd yn cystadlu â'i gilydd.

Costau yn deillio o brynu Fferm Gilestone a'r gwaith rheoli parhaus

- Ddiwedd mis Tachwedd 2022, roedd Llywodraeth Cymru wedi mynd i gostau uniongyrchol gwerth £60,000 yn ymwneud â'r trefniant caffael ac roedd yn rhagweld costau pellach yn ymwneud â rheoli'r Fferm o tua £57,000. Gall rhai o'r costau hyn gael eu gwrthbwyso gan incwm gosod a chyfrannau elw a gynhyrchir gan ffermio a gweithrediadau masnachol eraill ar y safle.
- Mae rhywfaint o wybodaeth gysylltiedig am gostau rheoli hefyd wedi'i rhyddhau mewn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth diweddar. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r wybodaeth hon yn rhoi'r darlun llawn. Mewn ymateb cychwynnol ddiwedd mis Mawrth 2023, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at gostau rheoli'r fferm o £15,400 ochr yn ochr â chostau ar gyfer arolygon ac asesiadau risg eraill gwerth cyfanswm o tua £4,000.

Cyfathrebu mewnol o fewn Llywodraeth Cymru ac amcanion polisi ehangach

- Roedd y llythyr yn nodi nad oedd copi o'r Cyngor Gweinidogol ynghylch y pryniant wedi'i anfon at y Gweinidog Materion Gwledig oherwydd yr hyn a ddeallwn oedd yn amryfusedd gweinyddol, er ei fod yn berthnasol i'w phortffolio.
- Roedd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd wedi datgan pe na bai opsiwn Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn mynd rhagddo, y dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r eiddo ar gyfer amcanion polisi amgen, megis plannu coed ac ynni adnewyddadwy, cyn rhoi'r eiddo ar y farchnad agored.

3. Diweddariadau ar y cynnydd

35. Ar 17 Mai 2023, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi ddatganiad ysgrifenedig yn rhoi diweddariad ar Fferm Gilestone²², a nododd:

“Roedd y cynnig gan Wyl y Dyn Gwyrdd ar gyfer canolfan yng Nghwm Wysg yn rhoi cyfle inni ddatblygu economi wledig mewn ffordd gynaliadwy, a'r cyfle i angori brand llwyddiannus o fewn Cymru. Mae ein cefnogaeth ar gyfer cyfle busnes cynaliadwy mewn ardal wledig, yn Fferm Gilestone, yn cyd-fynd â'r nodau a amlinellir ym Margen Twf y Canolbarth, a lofnodwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn 2022”.

36. Yn ogystal â chadarnhau trafodaethau hirdymor rhwng Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Llywodraeth Cymru, nododd y datganiad:

- Roedd y cynnig gan Wyl y Dyn Gwyrdd yn cyflwyno cyfle i ddatblygu economi gynaliadwy mewn ardal wledig a chyfle i angori brand llwyddiannus yng Nghymru.
- Mae'r cynlluniau'n cyd-fynd â'r nodau a geir ym Margen Twf Canolbarth Cymru, yn ogystal â sicrhau cyfatebiaeth strategol gref â nodau ac amcanion y Rhaglen Lywodraethu a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Gweledigaeth Gŵyl y Dyn Gwyrdd oedd creu menter wledig gynaliadwy newydd i gynhyrchu £23 miliwn ar gyfer yr economi leol, darparu o leiaf 38 o swyddi amser llawn newydd a chefnogi 300 o swyddi lleol drwy'r gadwyn gyflenwi.
- Ni chaniateir i unrhyw weithgareddau masnachol ychwanegol gael eu cynnal ar y safle heb y trwyddedau a'r caniatadau gofynnol a chynnal yr asesiadau amgylcheddol priodol.
- Ni fyddai Gŵyl y Dyn Gwyrdd ei hun yn adleoli i'r safle a byddai'r holl weithgareddau (gan gynnwys digwyddiadau llai) ar y safle yn gweithio mewn cytgord â'r amgylchedd, gan ategu bioamrywiaeth y fferm.

²² Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar Fferm Gilestone, 17 Mai 2023

- Ochr yn ochr â phartneriaid (gan gynnwys Gŵyl y Dyn Gwyrdd, yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a Chyngor Sir Powys), bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â'r gymuned leol ynghylch dyfodol y safle.
- Yn seiliedig ar y gwaith diwydrwydd dyladwy a wnaed hyd yma, roedd y Gweinidog wedi cymeradwyo mynediad i'r safle gan gynrychiolwyr Gŵyl y Dyn Gwyrdd i gynnal arolygon amgylcheddol ac arolygon eraill sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt allu gwneud cais am drwyddedau gweithredu a chaniatadau'n ymwneud â gweithgareddau arfaethedig. Roedd y Gweinidog hefyd wedi cymeradwyo dechrau trafodaethau ar brydles fasnachol ffurfiol gyda Gŵyl y Dyn Gwyrdd. Yna bydd arfarniad opsiynau llawn a therfynol yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog ei ystyried, er na roddwyd amserlen ar gyfer hynny.
- Am y tro, mae'r Fferm yn parhau i fod o dan y cytundeb rheoli gyda'r perchennog blaenorol. Ni fu unrhyw newid defnydd i fynnu unrhyw asesiadau neu ystyriaethau amgylcheddol neu waith cynllunio pellach.

37. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adran Cwestiynau Cyffredin ar ei gwefan hefyd, a oedd yn ailadrodd rhai o'r pwyntiau a wnaed yn natganiad y Gweinidog (nid yw'r rhain ar gael ar y wefan mwyach). Nododd y wefan ar y pryd:

"Mae bron 50% o holl fusnes y llywodraeth a ddyrannwyd i Gymru Greadigol ers mis Ebrill 2022 yn gysylltiedig â Fferm Gilestone. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Sir Powys hefyd wedi derbyn lefel uchel o ohebiaeth ac ymholiadau".

38. Fe wnaeth yr adran cwestiynau cyffredin hefyd nodi pryderon ynghylch cynnydd posibl mewn traffig a phwysau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau ar raddfa fach a gynllunnir. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod bellach yn y camau asesu nesaf ac y bydd swyddogion yn gweithio gyda Chyngor Sir Powys, yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, a'r Cyngor Cymuned i asesu anghenion seilwaith lleol perthnasol.

39. Yn dilyn y Datganiad Ysgrifenedig a chyn y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2023, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor gyda diweddariad²³ am ei chynlluniau ar gyfer y safle. Cadarnhaodd:

- Y byddai mynediad yn cael ei ganiatáu, drwy drwydded, i gynrychiolwyr Gŵyl y Dyn Gwyrdd i'r safle i "gynnal arolygon amgylcheddol ac arolygon eraill sydd eu hangen er mwyn sicrhau'r trwyddedau a'r caniatadau priodol ar gyfer eu cynnig".
- Y gallai trafodaethau prydles ffurfiol ddechrau rhwng Gŵyl y Dyn Gwyrdd a swyddogion.

40. Cadarnhaodd fod gwefan y prosiect wedi'i lansio (nad yw ar gael i'w gweld mwyach), gyda nodi y byddai ymgysylltiad â'r gymuned leol yn cael ei gydlynw drwy'r Cyngor Cymuned. Cadarnhaodd fod Tenantiaeth Busnes Fferm barhaus ar waith. Aeth ymlaen i ddweud:

"Unwaith y bydd y camau nesaf a amlinellir uchod wedi'u cwblhau, bydd gwaith asesu pellach yn cael ei gynnal gan swyddogion yn seiliedig ar y canfyddiadau. Bydd hyn yn cynnwys cynnal asesiad gan ddefnyddio'r Model Fusnes Pump Achos yn ogystal ag ystyried unrhyw faterion penodol ar gyfer y Swyddog Cyfrifyddu. Bydd yr allbynnau o'r ymarferion hyn yn cael eu hadolygu gan grŵp o uwch-swyddogion annibynnol a'r Tîm Arwain Eiddo (dim ond manylion y trafodiad eiddo y bydd y tîm hwn yn eu hystyried). Bydd unrhyw gyngor neu argymhellion dilynol yn cael eu hystyried gan swyddogion arweiniol a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, fel y bo'n briodol, cyn y cyflwyniad terfynol".

41. Ar ôl i hyn gael ei gwblhau, byddai'r asesiad llawn a therfynol o'r opsiynau yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidogion i wneud penderfyniad ar ddefnydd terfynol y Fferm.

²³ Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 29 Mehefin 2023

Sesiwn dystiolaeth gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, 5 Gorffennaf 2023

42. Ymddangosodd Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad gerbron y Pwyllgor, ochr yn ochr â swyddogion o Lywodraeth Cymru a Chymru Greadigol, ar 5 Gorffennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd parhaus.

43. Pan ofynnwyd iddo pa gwmni yr oedd Llywodraeth Cymru yn negodi ag ef ar gyfer prydlesu'r tir, ai'r Green Man Trust Limited neu Cwningar Limited, eglurodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol:

"Ordinarily, we wouldn't worry too much about the nature of different companies. Obviously, we need to understand how the companies interrelate, but all of these points can be taken care of in the lease arrangements, and in the conditions set through the lease, including provisions to ensure that companies don't operate in a way which gets them out of the obligations that they have undertaken, effectively"²⁴.

44. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol nad oedd y prosiect yn bodloni'r trothwyon ar gyfer ystyriaeth a her gan y Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol, sy'n ystyried datblygiadau cyfalaf ar gyfer busnes, a chynlluniau ar gyfer gwelliannau. Gan mai trafodiad eiddo ar ran Gweinidogion Cymru oedd hwn, heb unrhyw gymorth cyfalaf i'r cwmni drwy gymorth grant uniongyrchol, dadleuodd Llywodraeth Cymru nad oedd angen cyflwyno'r cynnig i'r Bwrdd²⁵.

45. Pan ofynnwyd iddo pam nad oedd Banc Datblygu Cymru yn rhan o'r pryniant, eglurodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol mai natur y cynnig a'r amserlenni yr oeddent yn gweithio â nhw oedd i'w gyfrif am hynny²⁶.

46. Pan ofynnwyd iddo am y ffaith bod natur y pryniant yn un cyfyngedig o ran amser, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol mai'r rhesymau dros hyn oedd oherwydd y risg y byddai rhywun arall yn prynu'r ased, ond hefyd

²⁴ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p63

²⁵ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p68-82

²⁶ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p86

oherwydd bod arian ar gael i gwblhau'r gwerthiant yn ystod y flwyddyn ariannol honno²⁷. Eglurodd:

"... the asset became, or looked like it was becoming available in a key location, and we needed to move swiftly in that regard. We had money available in the financial year in question. It doesn't mean that this wouldn't have applied if we'd moved into the next financial year; it just would have become a completely different discussion around budget prioritisation in the year ahead. And so, we took advantage of the opportunity to buy, and we moved at pace in the certain knowledge that we had the money available".

47. Pan ofynnwyd iddo grynhoi'r broses diwydrwydd dyladwy a ddefnyddiwyd wrth werthuso'r cynigion, eglurodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymru Greadigol:

"... it's about looking at the business plan, firstly from the strategic context, and how it matches with the strategic priorities of the Welsh Government, and it's clear that this business plan delivers against the ambitions within the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. I think that's core to what the business plan is trying to deliver, in a rural economy where there are struggles to develop opportunities of this nature...

*Then, obviously, the financial element of it, we have to take into account the accounting officer principles, around propriety and all those things"*²⁸.

48. Aeth ymlaen i ddweud wrth y Pwyllgor bod risg y byddai Cymru'n colli Gŵyl y Dyn Gwyrdd, gan nodi nad oedd llawer o wyliau annibynnol tebyg iddi, gyda llawer ohonynt yn cael eu gwerthu i fusnesau rhyngwladol mawr, a'r risg y byddai Cymru'n colli'r ŵyl pe bai hyn yn digwydd²⁹. Er gwaethaf hyn, dywedodd nad oedd bwriad i gynnal yr ŵyl gerddoriaeth ar y safle, gan ei fod

²⁷ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 15 Gorffennaf 2023, p89-90

²⁸ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p95-96

²⁹ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p108

yn rhy fach³⁰, ond yn hytrach bwriad y safle oedd arallgyfeirio brand Gŵyl y Dyn Gwyrdd, fel y cadarnhawyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol³¹.

49. Pan ofynnwyd iddo egluro sut yr aeth Llywodraeth Cymru ati i brofi rhagolygon economaidd Gŵyl y Dyn Gwyrdd ar gyfer y gweithgareddau ar y safle, eglurodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol:

"We take the business plan and the propositions put to us by the company, the same would be the case for any other, and we assess those and we test the validity of the assumptions because... are they credible? We bring relevant expertise to bear on those points, whether it's about financial matters or whether it's about the ability to hold events, or whether you can make a business operation run effectively. All of those matters come through us. Decisions are taken ultimately on the policy proposition by Ministers, and I am accountable as the accounting officer, and that's how it works for all of these things..."³².

50. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod proses diwydrwydd dyladwy Llywodraeth Cymru hyd yma, yn seiliedig ar yr uchod, wedi dod i'r casgliad bod y manteision a amlinellwyd gan Wyl y Dyn Gwyrdd (a drafodir yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn) yn gredadwy³³. Rhoddwyd trwydded er mwyn cynnal gwerthusiad a deialog pellach gyda rheoleiddwyr, i benderfynu a fyddai'r gweithgareddau arfaethedig yn cael eu caniatáu³⁴. Nodwyd y byddai gosod amserlenni ar y broses hon yn wrthgynhyrchiol³⁵.

51. Aeth y Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ymlaen i ddweud:

³⁰ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p114

³¹ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p116

³² Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p127

³³ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p130

³⁴ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p131 a 133

³⁵ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p134

"There are a number of companies that work with Green Man, really well-paid jobs, high-skilled jobs in the creative industries, and they're proposing a creative hub that will be on the site there for people to co-locate to deliver excellence in the creative sector. So, we think those will be really good, high-paid jobs in the community, so it's one of the elements that's particularly attractive. I just wanted to mention that"³⁶.

52. Yn y llythyr dilynol gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 25 Medi 2023³⁷, darparwyd rhagor o wybodaeth i gadarnhau'r datganiad hwn,

53. Pan ofynnwyd a oeddent yn derbyn y gallai'r Cyngor Gweinidogol fod wedi bod yn gliriach o ran nodi'r rhesymeg sylfaenol dros brynu'r safle, graddau'r cysylltiad â Gŵyl y Dyn Gwyrdd, yr hyn a ystyriwyd yn newydd/dadleuol, trefniadau cwmni arfaethedig Gŵyl y Dyn Gwyrdd ar gyfer y fenter newydd, a'r cyfyngiadau posibl ar addasrwydd y safle, nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn ei ymateb:

"Mae swyddogion yn derbyn y gallai'r geiriad fod wedi bod yn gliriach mewn mannau o'r cyngor ysgrifenedig, yn enwedig o ran y berthynas rhwng ehangu brand y Dyn Gwyrdd, y busnes cysylltiedig â'r brif ŵyl. Fodd bynnag, roedd y Cyngor Gweinidogol yn darparu chwe opsiwn i Weinidogion eu hystyried, gan gynnwys yr opsiwn o beidio â symud ymlaen gyda'r cynnig polisi. Roedd y Cyngor Gweinidogol yn ddigon cynhwysfawr ac yn cefnogi'r penderfyniad gweinidogol a geisiwyd"³⁸.

54. Pan ofynnwyd a ddylai'r Cyngor fod wedi ystyried opsiynau eraill ar gyfer ariannu'r pryniant nad oedd angen ei gwblhau cyn 31 Mawrth 2022, mae'r ymateb yn egluro:

"O ystyried diffyg hyblygrwydd diwedd blwyddyn, mae'n hanfodol bod gan Lywodraeth Cymru brosiectau y gallwn naill ai eu dwyn

³⁶ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p137

³⁷ Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 25 Medi 2023

³⁸ Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 25 Medi 2023

ymlaen, eu cwblhau ar fyr rybudd, neu eu harafu i'n galluogi i gyflawni'r alldro sydd ei angen arnom o ystyried y gall llawer o'r ffactorau y mae'n rhaid i ni ddelio â nhw fod y tu hwnt i'n rheolaeth. Mae sicrwydd ynghylch argaeledd cyllideb yn amlwg yn greiddiol i unrhyw benderfyniad a wneir".

55. Pan ofynnwyd a ellid bod wedi gwneud mwy i gadw nodiadau o gyfarfodydd rhithwir gyda chynrychiolwyr Gŵyl y Dyn Gwyrdd, derbyniodd Llywodraeth Cymru y canfyddiad hwn gan nodi yn y llythyr:

"Canfu Archwilio Cymru y byddai trywydd archwilio Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn wedi bod yn well pe bai'r holl gyfarfodydd wedi'u cofnodi. Rydym bob amser yn ceisio dysgu gwersi o brosiectau a rhaglenni ac yn derbyn y canfyddiad hwn, ond nid yw'n effeithio ar gasgliad sylfaenol Archwilio Cymru bod uniondeb gweithdrefnol y penderfyniad a wnaed ar Fferm Gilestone yn gadarn".³⁹

56. Mae'r llythyr hefyd yn cadarnhau bod gohebiaeth fewnol ar hyn wedi'i gyhoeddi, i "atgoffa swyddogion o'u cyfrifoldebau o ran rheoli cofnodion, ac mae'r canllawiau ar gyfer swyddogion hefyd wedi'u diweddarau"⁴⁰.

³⁹ Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 25 Medi 2023

⁴⁰ Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 25 Medi 2023

4. Ymateb

Ymgysylltu â'r gymuned

57. Yn yr adran Cwestiynau Cyffredin, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad i barhau â'i gwaith ymgynghori cymunedol drwy Gyngor Cymuned Tal-y-bont ar Wysg, fel y corff democrataidd etholedig lleol yn yr ardal.

58. Mae gwefan y Cyngor Cymuned yn cynnwys adran ar Fferm Gilestone⁴¹, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfodydd perthnasol â swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gyfeirio at ddatganiadau perthnasol Llywodraeth Cymru a chwestiynau yn y Senedd. Mae hefyd yn nodi rhai pryderon / cwestiynau a godwyd gyda Llywodraeth Cymru.

59. Ar 17 Mawrth 2023, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfarfod a fynychwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru ynghyd â chynrychiolwyr etholedig o Gyngor Sir Powys, y Cyngor Cymuned a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, a chyhoeddwyd cofnodion y cyfarfod mewn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth⁴².

60. Cyn datganiad diweddaraf y Gweinidog, a gyhoeddwyd ar 17 Mai 2023⁴³, disgrifiodd nodiadau'r Cyngor o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2023 deimlad cyffredinol eu bod yn cael eu hanwybyddu. Cyhoeddodd y Cyngor Cymuned ddatganiad ar 7 Mehefin 2023 yn nodi:

*"The TOUCC has been fully committed to gaining and distributing information regarding the purchase and development of Gilestone Farm. We have been as frustrated as everybody in the community with the speed of communication and the lack of content"*⁴⁴.

61. Mae'r datganiad yn mynd ymlaen i ddweud:

"We are now entering a vital stage of the development and are close to arranging a meeting with... the Welsh Government to

⁴¹ Cyngor Cymuned Talybont-ar-Wysg, [Fferm Gilestone](#)

⁴² Llywodraeth Cymru, [ATISN.17346](#), 27 Ebrill 2022 (dyddiad anghywir wedi'i nodi ar yr ymateb)

⁴³ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar Fferm Gilestone](#), 17 Mai 2023

⁴⁴ Cyngor Cymuned Talybont-ar-Wysg, [Datganiad gan y Cyngor Cymuned](#), 7 Mehefin 2023

allow us to build not only a communication strategy, but an engagement strategy, where we will be part of the discussion and consultation instead of being simply a conduit for portraying pre released information”.

62. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar 14 Mehefin 2023 a cheir crynodeb o'r drafodaeth ar wefan y Cyngor Cymuned. Nododd y crynodeb:

“... that communications had broken down and he (the Welsh Government official) and Welsh Government recognized that they had their part to play in the lack of communication and, subsequent damaging speculation which had occurred”⁴⁵.

63. Aeth ymlaen i ddweud bod Cynghorydd wedi mynegi'r canlynol:

“... disappointment the Community Council has felt at being used as nothing more than a conduit for information which had been released in the press and that no form of consultation had taken place in respect of the development and local people had not been given the opportunity to have their say despite being those who will be directly impacted by the Gilestone Farm development”.

64. Yn y cyfarfod, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnal arolwg swyddogol a chynhwysol yn y gymuned i ganfod y consensws o ran barn y cyhoedd, gan ganolbwyntio ar gasglu barn pobl iau a'u teuluoedd, demograffig nad oedd ei farn yn cael ei lleisio ar hyn o bryd.

65. Pan ofynnwyd iddo fyfyrion ar y farn hon mewn sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2023, dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymru Greadigol wrth y Pwyllgor:

“I don't think they've been ignored; I think we've been in dialogue with them throughout the process. As I say, it's been a very difficult conversation, because of the churn in members of the council over that period. So, yes, I think we've been in dialogue where we can... the relationship does need to improve. I think we can hold our hands up there and say that the relationship with

⁴⁵ Cyngor Cymuned Talybont-ar-Wysg, Nodiadau o'r Cyfarfod Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru ynghylch Fferm Gilestone, 20 Mehefin 2023

the community council does need to improve, but we're in the process of doing that now they have a new full membership in place"⁴⁶.

66. Aeth ymlaen i ddweud mai rhan o'r anhawster oedd bod llawer o'r materion ynghylch y cynigion wedi cael eu trafod yn y cyfryngau hefyd, a bod llawer o wirioneddau ac anwireddau wedi ymddangos yn y cyfryngau⁴⁷. Diben y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023 oedd cyfarfod â chynrychiolwyr newydd y Cyngor Cymuned, gyda chynigion ar gyfer arolwg cymunedol i ddilyn, i'w gynnal gan yr awdurdod⁴⁸.

67. Pan ofynnwyd iddo am allu'r cyhoedd i gymryd rhan uniongyrchol yn y broses o wneud penderfyniadau, eglurodd y Dirprwy Gyfarwyddwr y byddai hyn yn digwydd drwy'r broses gynllunio, gyda chyfle i rannu eu barn yn ystod y prosesau ymgeisio am ganiatâd cynllunio⁴⁹. Pan ofynnwyd iddo am gyfarfod agored posibl yn y dyfodol, fel y cyfeiriwyd ato yn nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023, nododd y Dirprwy Gyfarwyddwr na chafwyd unrhyw gynigion i gynnal cyfarfod o'r fath adeg cyfarfod y Pwyllgor⁵⁰.

Gŵyl y Dyn Gwyrdd

68. Clywodd y Pwyllgor gan Reolwr Gyfarwyddwr Gŵyl y Dyn Gwyrdd, Fiona Stewart, ar 28 Awst 2023, a ymatebodd i rai o'r materion a godwyd yn ystod sesiwn y Pwyllgor gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar 5 Gorffennaf 2023 (sydd wedi'i grynhoi uchod)⁵¹. Mae'r llythyr yn nodi y bydd y berthynas rhwng Prosiect Gilestone a Llywodraeth Cymru yr un fath ag unrhyw berthynas fasnachol arferol rhwng landlord a thenant, gydag enghreifftiau o brosiectau eraill Llywodraeth Cymru mewn mannau eraill a fwriadwyd i wella amgylchedd cymdeithasol ac economaidd y dinasyddion dan ei gofal.

69. Noda fod Gŵyl y Dyn Gwyrdd wedi gweithredu yn y rhanbarth ers 21 mlynedd, dim ond 5 milltir o Fferm Gilestone, a bod ganddi hanes

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, t185

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, t189

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p191

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p195

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p203

⁵¹ Llythyr gan Fiona Stewart at y Cadeirydd, 28 Awst 2023

llwyddiannus a chynhyrchiol o weithio gyda llawer o asiantaethau swyddogol.

70. Eglura nad oedd Gŵyl y Dyn Gwyrdd mewn sefyllfa ariannol i brynu Fferm Gilestone, gan ddweud:

“At the onset of this venture the intention was for me to purchase part of the property with the remaining purchased by the Welsh Government and leased back on a commercial tenancy until I could afford to buy the property outright. Knight Frank rural surveyors, who were acting on behalf of the Welsh Government, advised that a property division could decrease the value of the property and this was subsequently denied. I was not offered a loan arrangement; only a commercial lease was discussed”.

71. Mae'r llythyr yn nodi bod Knight Frank wedi rhoi gwerth o £4.35 miliwn i'r fferm, sef £100,000 yn fwy nag yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i dalu. Noda fod trafodaethau am ddyfodol yr ŵyl wedi bod yn mynd rhagddynt ers blynyddoedd lawer gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac mai'r angen i sicrhau canolfan barhaol i'r ŵyl oedd y cam rhesymegol nesaf wrth adeiladu ar lwyddiant yr ŵyl.

72. Aiff y llythyr ymlaen i ddweud:

- Nad oes unrhyw gyllid cyhoeddus wedi'i ddarparu i Ŵyl y Dyn Gwyrdd, nad yw'r eiddo wedi'i roi iddynt fel rhodd ac mai Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar yr eiddo yn gyfan gwbl.
- Mai cwmpas y trafodaethau oedd y posibilrwydd o ymrwymo i gytundeb prydles fasnachol gyda Gŵyl y Dyn Gwyrdd, yn seiliedig ar lwyddiant blaenorol y cwmni, dogfen ymweliad (cynllun busnes cam 1) a chynllun busnes cadarn y mae sectorau priodol Llywodraeth Cymru wedi craffu arno.
- Y cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y Cyngor Cymuned, Grŵp Cadwraeth Dyffryn Wysg, cynrychiolwyr etholedig lleol, ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol ymhlith eraill. Mae'r llythyr yn codi pryderon am awyrgylch gwenwynig a grëwyd gan wrthwynebwyd.
- Bod y prosiect arfaethedig yn cynnwys cynigion i hybu twristiaeth drwy Encil Werdd, gan gynnwys llety glampio a llety i'w rentu,

parhad elfen waith y fferm, yn ogystal â chynhyrchu bwyd a diod ar y safle.

73. Mae'r llythyr yn egluro bod Gweinidog yr Economi ar y pryd wedi cymeradwyo'r cynllun busnes mewn egwyddor ym mis Mai 2023, ac y byddai ymgysylltiad cymunedol mwy ffurfiol ar raddfa fawr yn dilyn. Cyhoeddwyd y cynllun busnes hwn ar wefan y prosiect, ond nid yw ar gael i'w weld mwyach.

74. Aiff ymlaen i ddweud:

"This involved directly connecting with local community groups and organisations, sending out 4,000 information leaflets to households in the area, launching a website with information, FAQ's, a questionnaire and contact details through which we can be contacted directly at any time. Through this process we received comments, views and questions from local people, many of which are helpful and constructive. This has now been live for eleven weeks and has proven to be highly effective with many small local companies, organisations and individuals wishing to engage with the Gilestone Project in the future".

75. Ysgrifennodd Fiona Stewart at y Pwyllgor eto ar 1 Tachwedd 2023 i esbonio gwerth Gŵyl y Dyn Gwyrdd i Gymru ac economi Cymru⁵², gan ddatgan:

- Mai Gŵyl y Dyn Gwyrdd oedd yr ŵyl gyntaf yn y DU i werthu pob tocyn ar gyfer tymor gwyliau 2024, sef yr ail flwyddyn i hyn ddigwydd, gyda phob tocyn wedi'i werthu o fewn dwy awr.
- Bod 25,000 o bobl y dydd yn mynychu Gŵyl y Dyn Gwyrdd a'i bod yn denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd (mae map cyrchfan prynwyr tocynnau wedi'i gynnwys gyda'r llythyr).
- Bod y diwydiant gwyliau yn hynod gystadleuol ac yn cael ei ddominyddu gan gorfforaethau adloniant rhyngwladol, nad ydynt, yn wahanol i fusnesau bach a chanolig fel Gŵyl y Dyn Gwyrdd, yn cynhyrchu elw i'r trysorlys.

⁵² Llythyr gan Fiona Stewart at y Cadeirydd, 1 Tachwedd 2023

Pryderon

Grŵp Cadwraeth Dyffryn Wysg

76. Roedd Grŵp Cadwraeth Dyffryn Wysg yn gwrthwynebu'n groch gynlluniau Gŵyl y Dyn Gwyrdd a bu'n casglu barn pobl leol ei hun.

77. Ysgrifennodd y Grŵp at y Gweinidog dros yr Economi ar y pryd ar 31 Gorffennaf 2022 i annog Llywodraeth Cymru i ailystyried y cynlluniau⁵³ a rhannwyd copi o'r llythyr gyda'r Pwyllgor. Mae'n honni nad oedd Gŵyl y Dyn Gwyrdd wedi ymrwymo i unrhyw gontract ystyrlon gyda'r boblogaeth leol a'i fod yn parhau i fethu ag ymgysylltu. Cododd y llythyr gyfres o bryderon ynghylch y cynigion, gan gynnwys:

- Y mynediad cyfyngedig i bentref Talybont, sef dim ond drwy ddwy ffordd fach ac ar draws un o'r unig dair pont rhwng Aberhonddu a Chrucywel.
- Codwyd pryderon amgylcheddol a nododd y llythyr fod y dyffryn y mae'r safle wedi'i leoli ynddo yn cynnal ecosystem gyfoethog ac amrywiol gyda llawer o rywogaethau gwarchodedig, gan gynnwys y gylfinir ac unig gadarnle Ewropeaidd yr ystlum pedol lleiaf sydd dan fygythiad, ac y bydd pob un ohonynt yn cael eu heffeithio'n negyddol gan weithgarwch cynyddol ar y fferm trwy draffig, llygredd golau a sŵn.
- Nodwyd hefyd y risg o lifogydd ar y safle.

78. Roedd y llythyr yn cynnwys pecyn cymorth, a oedd yn cynnwys Data Amgylcheddol a Chymunedol, gyda manylion pellach am gyfansoddiad amgylcheddol ac ecolegol y safle.

Prosiect Stop Gilestone Farm

79. Ysgrifennodd y grŵp at y Pwyllgor ar 12 Medi 2023⁵⁴ i wrthbrofi sylwadau a wnaed gan Fiona Stewart mewn llythyr dyddiedig 28 Awst 2023 (a nodir uchod). Mae'r ohebiaeth yn dadlau bod mwyafrif llethol y trigolion (77%) wedi dweud 'Na' pan ofynnwyd iddynt a oedd Fferm Gilestone yn lleoliad addas ar gyfer gweithgareddau arfaethedig Gŵyl y Dyn Gwyrdd, er y nodir

⁵³ Llythyr gan Grŵp Cadwraeth Dyffryn Wysg at Weinidog yr Economi, 31 Gorffennaf 2022

⁵⁴ E-bost gan Brosiect Stop Gilestone Farm at y Cadeirydd, 12 Medi 2023

nad yw manylion maint y sampl ar gyfer yr arolwg hwn yn hysbys. Aeth ymlaen i ddweud:

“A large majority also said they had received insufficient information about the scheme and expressed opposition to commercial developments or large events being held on the site. There was, however, strong local support in the survey for the farm to be used for sustainable and regenerative agriculture”.

Hawliau chwaraeon a physgota

80. Cafodd y Pwyllgor gopi o ohebiaeth gan randdeiliad â diddordeb, a gododd bryderon ynghylch yr hawliau saethu a physgota ar y safle ac a honnodd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â nhw.

81. Pan ofynnwyd iddo am statws yr hawliau hyn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod trafodaethau ar y gweill, a'u bod yn ceisio cyngor cyfreithiol⁵⁵. Ni fydd y Pwyllgor yn cynnwys rhagor o wybodaeth, er mwyn osgoi unrhyw risg o ragfarn gyfreithiol.

Ein barn ni

82. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Archwilydd Cyffredinol fod y penderfyniad i brynu'r fferm wedi'i wneud ar frys y gellid bod wedi ei osgoi. Er ei bod yn ddealladwy bod Llywodraeth Cymru eisiau gweithredu'n hyblyg, arweiniodd y brys hwn at ddiffyg diwydrwydd dyladwy trylwyr.

83. Er bod y Pwyllgor yn cefnogi ymdrechion i gefnogi'r sector creadigol, a hefyd ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddefnyddio dulliau ariannol i'w gefnogi a sectorau eraill, roedd brys Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn yn golygu nad oedd y cynlluniau'n ddigon cadarn ac nad oeddent wedi cael eu cyfleu'n effeithiol i'r gymuned. Barn y Pwyllgor yw na chyflawnwyd y cydbwysedd rhwng gweithredu'n hyblyg a chyflawni proses diwydrwydd dyladwy ar yr achlysur hwn.

84. Mae'r casgliadau ynglŷn â'r methiant i gadw cofnod digonol o gyfarfodydd â'r Dyn Gwyrdd yn destun gofid. Heb nodiadau cyfoes manwl o'r trafodaethau, nid yw'r Pwyllgor a'r Senedd yn gyffredinol yn gallu craffu'n llawn ar benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru a'u gwerthuso. Yn yr achos hwn, roedd diffyg cofnodion digonol yn llesteirio gwaith yr

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 5 Gorffennaf 2023, p219

Archwilydd Cyffredinol a'i dîm ac yn golygu na ellid sefydlu trywydd archwilio llawn o brosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru.

85. Yn yr un modd, mae'n destun pryder bod dull anghyson wedi'i fabwysiadu tuag at ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, gan rwystro mynediad teg at wybodaeth berthnasol am y pryniant. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymdrechu i ymateb yn gyfartal ac yn deg i bob cais o'r fath.

86. Mae'r darlun o ran Cyngor Gweinidogol yn parhau i fod yn ddryslyd ac mae'n amlwg na chafodd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau pwysig o fewn Llywodraeth Cymru wybodaeth am y pryniant mewn modd amserol. Mae'r Pwyllgor wedi codi pryderon yn y gorffennol ynghylch sut y mae Cyngor Gweinidogol yn cael ei roi mewn perthynas â'n gwaith craffu ar Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

87. Nid yw'n ymddangos bod Cynllun Dirprwy Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'n effeithlon, o ystyried na chafodd Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad na'r Gweinidog Materion Gwledig gopi o'r Cyngor Gweinidogol, er gwaethaf y ffaith bod y pryniant yn uniongyrchol berthnasol i'w portffolios priodol.

88. Nid oedd y Cyngor Gweinidogol yn ddigon clir ynghylch y risgiau a gyflwynwyd gan y cynnig, yn ogystal â'r hyn y gellid ei wneud i liniaru'r risgiau hynny.

89. Mae angen i Lywodraeth Cymru fyfyrion ar y materion hyn ac adolygu a oes trefniadau a chanllawiau cadarn ar waith i lywodraethu pwy sy'n cael Cyngor Gweinidogol ac a yw'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion a'r uwch swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r trefniadau ynghylch sut y mae Cyngor Gweinidogol yn cael ei rannu ag Ysgrifenyddion y Cabinet a Chyfarwyddwyr Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod pob uwch swyddog sy'n gwneud penderfyniadau yn cael y wybodaeth sy'n berthnasol i'w bortffolio. Dylai hefyd adolygu unrhyw ganllawiau ynghylch cynnwys y cyngor, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol yn cael ei darparu i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

90. Clywodd y Pwyllgor gan amrywiaeth o randdeiliaid a oedd yn anfodlon ag arferion ymgysylltu Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses brynu a'r broses ymgynghori ddilynol ar ddyfodol y safle. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth nad oedd y cynigion ar gyfer y safle yn ddigon clir a manwl ac nad oedd unrhyw gysylltiad ystyrlon â'r gymuned. Dylai Llywodraeth Cymru fod wedi sicrhau

bod holl aelodau'r gymuned, waeth beth fo'u barn ar brynu'r safle a'i ddyfodol, nid yn unig yn cael eu hysbysu ond hefyd yn cael lleisio eu barn fel rhan o'r broses.

91. Cydnabu Llywodraeth Cymru mewn tystiolaeth fod angen gwella'r berthynas â'r gymuned a gwnaed ymdrechion i wneud hyn. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gymuned yn teimlo bod ei llais yn cael ei glywed a'i bod yn ymgysylltu â hi drwy gydol prosesau o'r fath yn y dyfodol.

92. Mae'r Pwyllgor wedi codi pryderon ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd yn y gorffennol ac mae'n teimlo mai nawr yw'r amser i Lywodraeth Cymru adolygu ei dulliau o ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Dylai ystyried a yw'r arferion sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn ddigon cadarn, pa mor gyson y mae'r broses yn cael ei chymhwyso a sut y mae'n cynnwys y cyhoedd wrth lunio cynlluniau a mentrau.

93. Dylai hefyd hysbysu'r Pwyllgor ynghylch sut y mae'n gwerthuso llwyddiant ei harferion ymgynghori ac ymgysylltu ac ynghylch lefelau boddhad.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei harferion o ran ymgynghori ac ymgysylltu yn fwy cyffredinol ac adrodd ar ei chanfyddiadau i'r Pwyllgor. Dylai'r adolygiad ystyried a oes digon yn cael ei wneud i gyfathrebu â'r cyhoedd, a yw'r dulliau cyfathrebu mwyaf effeithiol yn cael eu defnyddio ac a oes digon yn cael ei wneud i adlewyrchu'r ymgysylltiad cymunedol hwn wrth gwblhau cynlluniau neu strategaethau.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n gwerthuso llwyddiant ei gwaith ymgynghori ac ymgysylltu yn fwy cyffredinol a pha ddata y mae'n eu casglu am lefelau ymgysylltu a chyfraddau cyswllt yn y cymunedau lle y cynhelir yr ymarferion hyn, ac yn fwy cyffredinol.

94. Nid yw'r ymateb negyddol gan rai rhanddeiliaid yn syndod, o ystyried y brys gyda'r broses brynu a'r diffyg proses diwydrwydd dyladwy o ganlyniad i hynny ynghylch addasrwydd y safle ar gyfer y cynlluniau arfaethedig. Yn benodol, mae'n werth nodi bod Grŵp Cadwraeth Dyffryn Wysg wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Economi ym mis Gorffennaf 2022 i godi pryderon ynghylch presenoldeb rhywogaethau gwarchodedig eraill ar y safle.

5. Datblygiadau dilynol

Dyfodiad gweilch y pysgod

95. Mewn llythyr at y Pwyllgor yn dilyn sesiwn dystiolaeth ar 5 Gorffennaf 2023, nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol:

“... byddwch wedi clywed bod pâr o Weilch bridio wedi'u gweld ar Fferm Gilestone. Yn unol â'r pwysigrwydd yr ydym yn ei roi i'r amgylchedd naturiol ac i wella bioamrywiaeth, mae Llywodraeth Cymru a'r Dyn Gwyrdd wedi cytuno bod yn rhaid i les yr adar a'u gwarchod fod yn flaenoriaeth inni. Roedd y ddau aderyn llawndwrf wedi gadael y safle ar 14 Medi, ond gobeithiwn y byddant yn dychwelyd i'w nyth adeiledig y Gwanwyn nesaf. Ar hyn o bryd mae fy nhîm yn gweithio gydag arbenigwyr perthnasol i baratoi cynllun gwarchod a rheoli ar gyfer y safle”⁵⁶.

96. Mae tudalen we Llywodraeth Cymru am Fferm Gilestone yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am bresenoldeb pâr o weilch y pysgod, a oedd yn nythu ar y safle. Noda'r canllawiau fod gweilch y pysgod “yn rhywogaeth Atodlen 1 a ddiogelir o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981”⁵⁷. Nodwyd mai dyma oedd y tro cyntaf iddynt gael eu gweld “mor bell i'r de yng Nghymru ers tua 200 mlynedd”.

97. Mewn datganiad ysgrifenedig ar 29 Ionawr 2024, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi ar y pryd ddiweddariad ar ddyfodol y Fferm⁵⁸. Cadarnhaodd y datganiad fod 'Cynllun Cadwraeth y Gweilch' wedi'i roi ar waith, gydag arbenigwyr yn cynghori ar y ffordd orau o “ofalu am y safle, gan geisio gwireddu yr un pryd ein huchelgais ar gyfer datblygu economaidd cynaliadwy, gan gynnwys y potensial i ddenu twristiaid gwledig”.

98. Aiff y llythyr ymlaen i gadarnhau, ar ôl ystyried cyngor yr arbenigwyr:

“... mae'n amlwg ei bod yn amhosibl mwyach wireddu amcanion masnachol ac elusennol llawn Grŵp y Dyn Gwyrdd, fel y'u nodir yn ei gynllun busnes. Y rheswm am hynny yw am fod yr

⁵⁶ Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 25 Medi 2023

⁵⁷ Llywodraeth Cymru, Canllawiau: Fferm Gilestone

⁵⁸ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Dyfodol Fferm Gilestone, 29 Ionawr 2024

adroddiad yn gofyn am greu parth gwarchod o 750m o gwmpas y nyth ar y fferm lle bydd cyfyngiadau trwm ar unrhyw weithgarwch gan bobl. Diogelu'r adar yw ac y bydd y flaenoriaeth fwyaf".

99. Aiff ymlaen i nodi bod Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn “ased masnachol a diwylliannol gwych i Gymru” gan ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i “sicrhau cartref tymor hir addas yng Nghymru, lle gellir gwireddu ei botensial cryf”. Roedd y Gweinidog yn gresynu bod “swyddogion etholedig a phartneriaid busnes wedi bod yn destun ymosodiadau parhaus a phersonol ynglŷn â'r mater hwn”.

100. Mae'r llythyr hefyd yn cadarnhau bod cyfleoedd o hyd i ffermio cynaliadwy a datblygu economaidd barhau ar y safle, ond bod Llywodraeth Cymru “wedi bod yn arfer hen egwyddorion wrth ddefnyddio a gwerthu tir ac eiddo, a seilir y penderfyniadau a wneir am ddyfodol y fferm ar yr egwyddorion hynny”.

101. Mewn llythyr at y Pwyllgor yn dilyn cyhoeddi'r datganiad ysgrifenedig, dyddiedig 2 Chwefror 2024, ailadroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ddull Llywodraeth Cymru o warchod yr adar, gan ddisgrifio'r gwaith a wnaed gyda'r arbenigwyr gwalch y pysgod perthnasol⁵⁹.

102. Aeth ymlaen i ymhelaethu ar y cynlluniau masnachol ar gyfer y safle, gan ddatgan:

“... rhoddodd yr adroddiad gyngor ar ddull gofalus o ymdrin â gweithgarwch gan bobl ar y safle ehangach, hyd yn oed y tu hwnt i'r hyn sydd o fewn y parth cyfyngu penodol. Derbyniodd Gweinidog yr Economi yr argymhellion hyn, ac yn unol â hynny daethpwyd â'r trafodaethau masnachol i ben rhwng Llywodraeth Cymru a'r Dyn Gwyrdd ynghylch les ar gyfer y safle”.

103. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd:

“... caiff y safle ei drin fel un nad oes bellach ei angen ar Lywodraeth Cymru o ran yr amcanion polisi cychwynnol a nodir yn y rhesymeg dros gaffael y safle. Mae gan Lywodraeth Cymru

⁵⁹ Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2024

ganllawiau sy'n bodoli eisoes ar gyfer amgylchiadau o'r fath, Nodi a Gwaredu Tir ac Adeiladau Dros Ben Anghraidd Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau ynghylch y camau nesaf. Yn y lle cyntaf, byddwn yn ystyried a all y safle gyflawni cynigion polisi eraill a byddwn yn siarad â chyrff cyhoeddus eraill a chyrff anllywodraethol am botensial cadwraeth a thwristiaeth bywyd gwyllt y fferm".

Ymateb

104. Roedd llefarydd ar ran grŵp Prosiect Stop Gilestone Farm yn croesawu'r penderfyniad i ailystyried y cynlluniau ar gyfer y safle yn y cyfryngau lleol⁶⁰, ac aeth ymlaen i ddweud:

"[The group has] always called for the discussions about the future of Gilestone Farm to be conducted with courtesy and respect, and our group shares Mr Gething's concerns about threats and personal attacks. However, we would urge him to investigate these properly, rather than making a generalised statement which risks misrepresenting the community in Talybont-on-Usk. The Welsh Government must accept there were legitimate local concerns about this scheme, and these have always been carefully and respectfully presented by our campaign group".

105. Mewn llythyr dyddiedig 21 Mawrth 2024, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oedd (ar y pryd) wedi ceisio prisiad wedi'i ddiweddarau yn dilyn darganfod gweilch y pysgod ar y safle⁶¹. Cynhaliwyd gwerthusiad allanol o'r fferm ym mis Gorffennaf 2023, gyda'r eiddo wedi'i brisio'n £4.25m (yr un ffigur ag a dalodd Llywodraeth Cymru am y safle). Mae'r llythyr yn mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

"Mae'r ffaith bod yr adar wedi cyrraedd yn golygu fod gan y safle ddatganiad unigryw, a'n bod ers hynny wedi derbyn a [g]weithredu cynllun cadwraeth ar gyfer y gweilch. O edrych ar y sefyllfa, byddai prisiad diwygiedig cadarn yn anodd ei gael; mae

⁶⁰ Aberhonddu & Radnor Express, [Stop Gilestone Farm Project 'pleased' to hear news deal is no longer going ahead](#), 29 Ionawr 2024

⁶¹ Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Mawrth 2024

natur unigryw y safle a'r sefyllfa yn golygu bod diffyg tystiolaeth debyg a/neu empirig i gadarnhau newid mewn gwerth naill ai i fyny neu i lawr. Serch hynny, bydd Alder King yn cynnal prisiad cyfredol mewn egwyddor o'r ased fel rhan o Brisiad Blynnyddol holl asedau Llywodraeth Cymru. Dylai'r prisiad hwnnw fod ar gael ddechrau Mai, a byddaf yn rhoi gwybod i chi a'r Pwyllgor beth yw'r canfyddiadau".

106. Cadarnhaodd y llythyr hefyd fod yr incwm a enillwyd o'r Denantiaeth Busnes Fferm hyd at fis Tachwedd 2023 yn £37,753, gyda thenantiaeth newydd wedi'i chytuno hyd at fis Tachwedd 2024 gyda'r un tenant.

107. Ysgrifennodd grŵp Prosiect Stop Gilestone Farm at y Pwyllgor ar 27 Mawrth 2024 yn dilyn hynny⁶² i amlinellu cyfres o fyfyrddodau ar y broses:

- Beirniadodd y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r pryniant heb unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'n honni y byddai ymgynghori cynharach wedi codi nifer o faterion a allai fod wedi arwain at roi'r gorau i'r broses, gan gynnwys gweld gweilch y pysgod yn lleol yn yr ardal.
- Mae'n honni nad oedd yr achos busnes bob amser wedi'i gefnogi gan dystiolaeth gyhoeddedig, gyda phryderon yn cael eu codi ynghylch y budd amcangyfrifedig o £23 miliwn i'r economi leol.
- Mae'n beirniadu Llywodraeth Cymru am y cynnydd araf ynghylch ymgynghori â'r gymuned.

108. Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor ar 28 Ebrill 2025 i gadarnhau bod yr eiddo wedi'i brisio'n £3.75 miliwn, fel rhan o broses prasio asedau flynyddol Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025⁶³, sy'n golled sylweddol o'i gymharu â'r pris prynu o £4.25 miliwn.

109. Mae'r eiddo wedi'i brydlesu drwy Denantiaeth Busnes Fferm tan fis Tachwedd 2025 (ni nodir a yw hyn i'r tenant presennol) ar delerau masnachol.

110. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadarnhau bod presenoldeb gweilch y pysgod, a'u lles, yn ffactor hanfodol wrth werthuso dyfodol y safle.

⁶² E-bost gan Brosiect Stop Gilestone Farm at y Cadeirydd, 27 Mawrth 2024

⁶³ Llythyr gan Cyfarwyddwr Cyffredinol Economi Ynni a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru at y Cadeirydd, 28 Ebrill 2025

Ein barn ni

111. Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu y gallai'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi prynu'r safle ar frys fod wedi llesteirio ei gallu i nodi risgiau ynghylch presenoldeb bywyd gwyllt a fyddai'n effeithio ar ei chynigion ar gyfer y safle ac, o bosibl, ei werth. Mae hyn yn arbennig o nodedig gan fod y safle bellach wedi'i brisio'n £3.75 miliwn, sy'n golygu bod ased Llywodraeth Cymru wedi colli hanner miliwn o bunnoedd o ran gwerth.

112. Mae'r golled sylweddol hon mewn gwerth yn arbennig o nodedig yn sgil y dirwedd ariannol heriol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus cyfan.

Argymhelliad 4. Dylai Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad llawn o'r broses brynu a myfyrio ar y golled sylweddol yng ngwerth y tir ac a ellid bod wedi lliniaru hyn pe bai Llywodraeth Cymru wedi cynnal proses diwydrwydd dyladwy fwy trylwyr cyn y pryniant. Dylai fyfyrion ar a allai proses diwydrwydd dyladwy fwy cadarn fod wedi canfod y risg y byddai'r mater hwn yn codi, pe bai gwiriadau cyn prynu mwy trylwyr wedi'u cynnal. Dylai'r adolygiad nodi'n glir yr opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i liniaru'r colledion i'r pwrs cyhoeddus.

113. Er bod y Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig bod gan Lywodraeth Cymru y pŵer i wneud buddsoddiadau, naill ai drwy brynu eiddo neu gyllid, i gefnogi diwydiannau penodol ledled Cymru, mae'r Pwyllgor wedi nodi patrwm pryderus o'r cronfeydd a'r buddsoddiadau hyn yn colli arian ac yn methu â chyflawni eu hamcanion.

114. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu gwneud gwaith pellach yn y maes hwn, er mwyn deall yn well ddull Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn eiddo a gwerthuso a yw'n addas. Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch pa ganllawiau sydd ar waith cyn prynu, yn enwedig gan fod y pryniant wedi'i wneud ar frys y gellid bod wedi'i osgoi yn yr achos hwn, er mwyn manteisio ar gyllid a oedd ar gael ar ddiwedd blwyddyn.

115. Mae'r Pwyllgor eisiau dysgu am y darpariaethau a'r canllawiau a ddilynir mewn perthynas â buddsoddi mewn eiddo, er mwyn deall yn well beth sydd eisoes ar waith ac a yw'n addas ar gyfer lliniaru sefyllfaoedd tebyg yn y dyfodol.

116. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw ddiweddariadau i werth y tir, yn ogystal ag am gynlluniau yn y dyfodol ar gyfer gwaredu neu ddefnyddio'r safle.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa ganllawiau neu gerrig milltir cyn buddsoddi, os o gwbl, a ddilynir cyn bwrw ymlaen â phrynu eiddo neu dir, gan gynnwys pa chwiliadau neu arolygon y mae'n rhaid eu cynnal i benderfynu ar addasrwydd y tir. Dylai'r esboniad hwn hefyd nodi unrhyw eithriadau lle nad oes angen dilyn y rheolau hyn, os yw'n berthnasol.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pa ganllawiau neu reolau a ddilynir mewn perthynas â chael gwerthusiadau ar bryniannau eiddo neu dir arfaethedig a'r hyn sy'n ofynnol gan Weinidogion a swyddogion.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu rôl yr Adran Tir mewn perthynas â phrynu eiddo a thir ac egluro sut y maent yn gweithio gyda'r adrannau perthnasol i sicrhau bod y tir yn addas at y dibenion a fwriadwyd, a'r broses diwydrwydd dyladwy y disgwylir iddynt ei chyflawni cyn prynu.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw brisiadau diweddaraf ar gyfer y tir. Dylai hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan wneir penderfyniadau ynghylch defnydd y safle yn y dyfodol, gan gynnwys os bydd y broses i werthu'r safle yn cychwyn.

Casgliad 1. Bydd y Pwyllgor yn comisiynu ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o fuddsoddi mewn eiddo, er mwyn deall yn well y prosesau a ddefnyddir ac i werthuso a ydynt yn ddigon trylwyr.

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
14 Gorffennaf 2022	Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol - Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad, Llywodraeth Cymru Jason Thomas, Cyfarwyddwr - Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru Gerwyn Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr - Cymru Greadigol, Llywodraeth Cymru Tim Howard, Dirprwy Gyfarwyddwr - Cymru Greadigol, Llywodraeth Cymru